# Fforwm Rheoli Tir Cymru
# Is-grŵp ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:** Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Skype

**Dyddiad y Cyfarfod:** Dydd Llun 14 Rhagfyr 2020

**Yr aelodau a oedd yn bresennol**
Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)
Geraint Llyr Davies, CNC
Dennis Matheson, TFA
Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru
Creighton Harvey, CFF
Bob Vaughan, CNC
Sarah Hetherington, CNC
Sarah Jones, Dwr Cymru
Marc Williams, CNC
Katy Simmons, CNC
John Browne, CNC
Kate Snow, United Utilities
Ruth Johnston, CNC
Fraser McAuley, CLA
James Ruggeri, HCC
Liz Franks, HD Cymru
Edward Davies, CNC
Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru
Einir Williams, Cyswllt Ffermio
Lee Price, Cyswllt Ffermio
Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

**Ymddiheuriadau**
Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru
Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru
Nik Salter, CNC
Matt Lowe, CNC

## Eitem 1: Croeso

Bydd Chris Mills yn cymryd lle Stephen Marsh-Smith fel cynrychiolydd Cyswllt Amgylchedd Cymru ar yr is-grŵp, bydd Arfon Williams yn parhau i gefnogi Chris yn y rôl hon. Chris Mills yw Cadeirydd Afonydd Cymru, ar ôl arwain Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn ffurfiol. Ymunodd Chris Mills â'r cyfarfod am 10:30am.

**Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau newydd o fuddiant.

**DS:** Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 2 Tachwedd 2020

**DS:** Bydd Bronwen Martin yn ymuno â thîm Fforwm Rheoli Tir Cymru o 17 Rhagfyr, gan weithio gyda'r fforwm llawn a chefnogi'r is-grŵp ar lygredd amaethyddol. Bydd Bronwen yn gyfrifol am gymryd y cofnodion yn y dyfodol.

**Cywiriadau**

**Tudalen 1** Ni chafodd enwau James Ruggeri, HCC a Ruth Johnston, CNC eu cynnwys ar y rhestr o'r bobl a oedd yn bresennol.

**Tudalen 5** Dylai Para 7 nodi 'position' nid 'potion'.

**Pwyntiau Gweithredu**

Roedd mân wallau o fewn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd oherwydd roedd y sawl a wnaeth gymryd y cofnodion yn anghyfarwydd â'r gwaith. Nodwyd problemau hefyd o ran methu ag adnabod blaenlythrennau yng nghofnodion y misoedd diwethaf.

***PG 01 Rhagfyr: Cywiriadau i'w gwneud i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd (ZH/MW)***

**PG 01 Gorffennaf: SJ i anfon gwybodaeth gan DCWW i esbonio beth yw Gorlifoedd Carthion Cyfun (CSO).**

*Cwblhawyd: Gwybodaeth a thaflen wedi'u hanfon at aelodau'r is-grŵp.*

Yn y cyfarfod ar 16 Tachwedd rhoddodd CH adroddiad ar y trafodion yn y Llys Ynadon ynghylch dau achos o lygredd dŵr y dylid eu cynnwys yn y cofnodion.

**PG 02 Rhagfyr: Bydd cofnodion byr ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd yn cael eu llunio (MW).**

***PG 03 Rhagfyr: CH i ysgrifennu cyfrif o'r trafodion a'i anfon at MW i'w gynnwys mewn cofnodion.***

**PG 03 Tachwedd: RV i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am ddigwyddiad ym Mhontithel.**

*Nid oedd modd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar 14 Rhagfyr oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol. RV i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp cyn gynted â phosibl o ystyried sensitifrwydd cyfreithiol.*

**PG 04 Tachwedd: RV a ZH i adolygu'r cylch gorchwyl er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chylchoedd gorchwyl gweithgorau eraill fel Fforymau Pysgodfeydd a Dŵr. Sicrhewch fod negeseuon sy'n deillio o'r grŵp hwn yn cael eu bwydo i eraill.**

*ZH ac RV i ddiweddaru'r cylch gorchwyl os oes angen.*

**PG 03 Mawrth: Mark Squire (MS) i siarad â LlC am gyllid cyfalaf ar gyfer pecynnau samplu dŵr.**

*Mae MS wedi cynnal trafodaethau, ond nid yw RV wedi cael adborth eto. RV i fynd ar drywydd a darganfod unrhyw ganlyniadau.*

***PG 04 Rhagfyr: MW i ddosbarthu gwybodaeth am ymgysylltiad Cyswllt Ffermio â'r grŵp.***

**PG 11 Gorffennaf: SC i anfon gwybodaeth at MW i'w dosbarthu am blastigau gwastraff.**

Anfonodd MW e-bost i ofyn am yr wybodaeth hon, ni chafwyd ymateb cyn dyddiad y cyfarfod.

**PG 04 Gorffennaf: RV i gael sgwrs â CA ynghylch cydymffurfio ar ffermydd cynrychioliadol yn nalgylch Dyfrdwy.**

*RV i wneud gwaith dilynol.*

**PG 10 Tachwedd: RJ i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynlluniau Rheoli Islawr Afon i'r grŵp.**

*Anfonodd RJ wybodaeth at MW i'w dosbarthu.*

**PG 11 Tachwedd: SJ i rannu astudiaeth achos o brosiectau Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog**

*SJ i rannu astudiaeth achos unwaith y bydd wedi'i chwblhau.*

**PG 12 Tachwedd: SJ i gael rhagor o wybodaeth am dreialon tan-hau indrawn**

*Oedi oherwydd COVID.*

***PG 05 Rhagfyr: MW i gael trafodaethau pellach â Geraint Hamer, LlC, ynghylch data samplu pridd.***

*MW i wneud gwaith dilynol.*

**PG 15 Tachwedd: CH i rannu'r hyn yr oedd Afonydd Cymru wedi'i ddysgu.**

*Cofiodd CH gyflwyniadau blaenorol a roddwyd yn 2019 y gellir eu dosbarthu ar gais.*

**PG 17 Tachwedd: RV i siarad ag adran newid yn yr hinsawdd o fewn LlC.**

*RV i wneud gwaith dilynol.*

## Eitem 3: Argymhellion â blaenoriaeth – Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

Roedd **ZH** am nodi pwy sy'n gwneud beth a'r materion penodol sy'n gysylltiedig â ble maent yn mynd i barhau i symud camau gweithredu ymlaen.

Rhannodd **MW** sgrin gyda thaenlen o argymhellion a gofynnodd i'r grŵp nodi camau gweithredu, ble y gallant gefnogi, ac amserlenni.

***Argymhelliad 3.1:***

Cafwyd diweddariad gan **MW** am y Prosiect Llwytho Maetholion. Roedd CNC wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i sicrhau contractwr i gyflawni'r prosiect. Anfonodd Llywodraeth Cymru y fanyleb at ADAS ar gyfer dyfyniad yr wythnos ddiwethaf. Annhebygol o dderbyn dyfynbris hyd y Flwyddyn Newydd. ADAS i ddarparu dyfynbris ar gyfer 3 phecyn gwaith gwahanol sydd ynghlwm wrth y prosiect. Gobeithir bod modd cyflawni pecyn gwaith 1 a 2 yn y flwyddyn ariannol hon.

Bydd **MW** yn cael trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch prosiectau a ariennir ym maes ansawdd dŵr yn y Flwyddyn Newydd.

Roedd **MW** wedi tynnu sylw at yr angen i ddeall maint y broblem (llygredd amaethyddol) ar 2 Dachwedd. Fodd bynnag, nid oedd wedi cynnig unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei wneud.

**ZH** Bydd graddfa’r broblem yn dod i’r amlwg fel rhan o gasgliadau’r prosiect.

Cyfeiriodd **MW** at sylw a wnaed gan SJ ar 2 Tachwedd am waelodlin llygredd amaethyddol a'r rhwystrau i newid ymddygiad. Adroddiadau maetholion a seilwaith Cyswllt Ffermio a lefel yr ymgysylltu â'r rhain. Mae LP wedi llunio dogfen sy'n edrych ar y Pentywyn a'r Gele.

Dywedodd **LP** fod hynny'n gywir. Gall Cyswllt Ffermio ddadansoddi ymgysylltu os yw'n ddefnyddiol. (Rhoddodd LP drosolwg o'r ddogfen a rennir ar sgrin o ddata ymgysylltu). Ar hyn o bryd, dim ond dalgylch Pendine a Gele oedd wedi’u dadansoddi ond gallai’r gwaith yma gael ei wneud ar gyfer eraill petai hynny’n ddefnyddiol. Mae Tabl 1 yn dangos ymgysylltiad busnesau yn y dalgylch â holl weithgareddau Cyswllt Ffermio, e.e. gwasanaethau cynghori, mentora, clinigau. Yna aeth LP drwy’r data. Mae Tabl 2 yn dangos yr un busnesau sy'n cymryd rhan mewn digwyddiad, clinig, neu gymhorthfa. Mae Tabl 3 yn dangos ymgysylltiad busnes â'r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr. Disgrifiodd LP natur y cyngor y mae busnesau wedi bod yn ei dderbyn. Mae'r dadansoddiad yn rhoi syniad o lefel yr ymgysylltu o fewn y dalgylchoedd â blaenoriaeth a gellid ei ddefnyddio i lywio p'un a yw'n parhau â gwaith y mae mwy o flaenoriaeth iddynt neu waith mwy cyffredinol. Gellir caffael data ar gyfer dalgylchoedd eraill os yw'n ddefnyddiol ac os oes diben i wneud hyn.

Dywedodd **RV** ei fod yn credu bod y data'n ddefnyddiol iawn. Mae'n rhoi ffocws ar yr ymgysylltu o fewn y dalgylch. Os ydym yn gwybod beth yw ein problemau yn y dalgylch, gallwn gysylltu'r ddau a rhoi rhai awgrymiadau.

Gofynnodd **GLD** beth oedd y rheswm pam nad oedd rhai busnesau wedi ymgysylltu.

Gofynnodd **ZH** a oedd yn edrych ar bob ffermwr yn y dalgylch neu ddim ond ffermwyr sydd wedi ymgysylltu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Dywedodd **LP** mai'r rhain yw'r holl fusnesau sydd wedi'u cofrestru gyda Cyswllt Ffermio o fewn codau post y dalgylch. Mae'r data'n annhebygol o gynnwys 100% o fusnesau, ond yn hytrach pob un sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Ni allai LP ateb pam nad oedd rhai busnesau wedi ymgysylltu, efallai nad yw rhai busnesau'n teimlo bod angen iddynt ymgysylltu neu nad ydynt yn ymwybodol o'r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael. Pe bai'r dadansoddiad hwn yn cael ei gynnal ar gyfer pob dalgylch, gallai Cyswllt Ffermio ysgrifennu at y busnesau nad ydynt yn ymgysylltu a rhoi gwybod iddynt pa wasanaethau sydd ar gael yn eu dalgylchoedd penodol. Bydd pob busnes cofrestredig wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiadau wedi'u trefnu. Gall Cyswllt Ffermio gynnal dadansoddiad o'r holl ddalgylchoedd â blaenoriaeth i geisio mynd i'r afael â'r ffaith nad yw rhai busnesau wedi ymgysylltu.

Dywedodd **RV**, os ydym yn bwrw ymlaen â negeseuon, y byddem am weld y niferoedd yn symud i ochr dde y tablau (mwy o ymgysylltu).

Dywedodd **LP** byddai hyn wedyn yn creu llinell sylfaen fel man cychwyn.

Dywedodd **MW** ei fod yn credu y byddai'r wybodaeth hon yn helpu wrth wneud y gwaith dalgylch wedi'i dargedu i wella'r ffordd y rhoddwyd cyngor i ffermwyr.

Dywedodd **RLD** fod hyn yn atgyfnerthu'r farn mai'r dull dalgylch yw'r un cywir ac mae'n meithrin ymwybyddiaeth ar lefel gymunedol.

Dywedodd **BG** y dylid pwysoli'r data i adlewyrchu'r rhai sydd wedi ymgysylltu â sawl ymyriad.

Dywedodd **LP** y bydd Einir Williams yn cymryd yr awenau fel cynrychiolydd dros dro Cyswllt Ffermio felly bydd yn gweithio gyda hi i ddod â'r adroddiadau ar gyfer y dalgylchoedd eraill ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd **SJ**, o ran y niferoedd, ai dyma'r niferoedd sydd wedi'u cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. A ydym yn gwybod a oes pobl nad ydynt wedi'u cofrestru o gwbl? Bydd Llywodraeth Cymru yn gwybod faint o bobl sy'n hawlio'r Taliad Sengl yn y dalgylch hwnnw. Byddai'n bosibl cymharu'r nifer posibl y gellid ymgysylltu â hwy â nifer y bobl sy'n ymgysylltu.

Credai **RV** fod angen gofyn y cwestiwn hwn i Lywodraeth Cymru.

Meddai **LP** ei bod yn debygol y byddem wedi cyrraedd y rhan fwyaf o'r ffermydd llaeth, cig eidion a defaid mawr yn y dalgylch. Credaf y byddai gennym y prif fusnesau yn y dalgylch, yn enwedig y ffermydd llaeth, mae 90% o ffermydd llaeth yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Ond nid oes gennyf yr atebion o ran cyfanswm nifer y ffermydd.

Meddai **SJ**, dydych chi ddim eisiau treulio amser yn mynd ar ôl pobl, rydych chi eisiau canolbwyntio ar helpu’r bobl sydd ei angen fwyaf.

Dywedodd **LP**, yn gyffredinol o safbwynt Cyswllt Ffermio, roedd cyfarfodydd wedi’u cynnal yn ddiweddar gyda'r bwrdd cynghori strategol a'r bwrdd cyflawni ynghylch a ddylid rhoi mwy o sylw i’r busnesau anos eu cyrraedd, sydd wedi ymddieithrio neu symud ymlaen gyda'r busnesau sydd wedi'u cofrestru a sicrhau bod y rhai sydd wedi'u cofrestru yn cael y cyngor sydd ei angen arnynt. Yr hyn nad yw'r data'n ei ddangos yw bod pob busnes cofrestredig yn cael cyhoeddiad technegol deufisol, a negeseuon e-bost 'Beth sy'n digwydd', naill ai'n ganolog neu drwy eu swyddogion datblygu lleol. Mae pob busnes cofrestredig yn cael llawer iawn o wybodaeth am wahanol bynciau, megis rheoli pridd, rheoli dŵr, felly, maent yn ymgysylltu o bosibl, ond nid yw hynny'n cael ei gyfrif yn y data yn y dadansoddiad hwn, gan nad yw ond yn cynnwys y rhai sy'n mynychu digwyddiadau. Maent oll yn derbyn negeseuon cyfathrebu a gallai hynny fod yn ddigon i rai. Efallai eu bod yn gwneud penderfyniadau ar ffermydd yn seiliedig ar yr hyn y maent yn ei ddarllen yn ein cyhoeddiadau neu'r wefan. Fodd bynnag, ni all Cyswllt Ffermio gofnodi hynny.

Dywedodd **EW** o ran y dalgylchoedd â blaenoriaeth, Gele yn arbennig, roedd yn rhan o’r gwaith nôl yn 2018 pan oedd gweithdai codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal. Ffoniwyd pawb yn y dalgylchoedd gan fod rhestrau o bawb yn y dalgylchoedd. Fel arall, mae Cyswllt Ffermio wedi'i gyfyngu i'r busnesau hynny sydd wedi'u cofrestru. Credai y byddai canran uwch o fewn y dalgylchoedd â blaenoriaeth oherwydd cysylltwyd â phob busnes.

Dywedodd **LP** eu bod yn casglu adborth o'r digwyddiadau a fynychwyd. Dangosodd adroddiad ar y digwyddiadau â blaenoriaeth fod yr adborth wedi cael ymateb da. Gellir dosbarthu'r adroddiad i'r aelodau os oes angen.

***PG 06 Rhagfyr: Adroddiad ar adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu Cyswllt Ffermio i'w ddosbarthu (LP).***

Gofynnodd **GLD**, beth yw'r camau nesaf ar gyfer hyn, fel ffermwr rwyf am weld pethau'n digwydd yn hytrach na dim ond llunio papurau.

Dywedodd **LP**, credaf mai dyna y mae'r fforwm yma i gytuno arno. Yn y cyfarfod diwethaf, cynigiais y gallai Cyswllt Ffermio wneud mwy o waith ynghylch y dalgylchoedd â blaenoriaeth neu y gallai barhau â'r ymgyrch gyffredinol gan Cyswllt Ffermio ar lygredd amaeth. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn digwydd yn ddigidol. Trwy weithio’n ddigidol rydym wedi canfod ein bod yn ymgysylltu â gwahanol bobl a allai fod yn beth da. Mater i'r fforwm yw gwneud y penderfyniad.

Dywedodd **RV**, o'n safbwynt ni, rydym wedi sefydlu'r dalgylchoedd â blaenoriaeth y tro diwethaf yn seiliedig ar y WFD lle'r oedd y wybodaeth yn awgrymu bod llygredd amaethyddol yn effeithio ar y cyrff dŵr, dyna'r rhai y canolbwyntiwyd arnynt. Gweithiodd hynny'n dda iawn wrth ddewis cyfres o ddalgylchoedd y gallem weithio ynddynt. Credaf fod angen inni adolygu'r sefyllfa i weld ai'r rhain yw'r dalgylchoedd â blaenoriaeth o hyd ac a yw eraill yn cyrraedd y rhestr hefyd ac a oes angen ailystyried ein hymdrechion eto. Mae angen i ni fynd i ffwrdd a nodi’r hyn yr ydym am ganolbwyntio arno a dod yn ôl at y grŵp a nodi’r lleoliadau rydym wedi’u pennu. Yna gellir bwydo’r penderfyniad hwn i Cyswllt Ffermio er mwyn dangos lle rydym am gael ymgysylltiad ychwanegol.

Meddai **CH**, mae'n amlwg bod llawer o'r problemau sy'n codi yn cael eu hynysu mewn rhai mannau oherwydd y math o ffermio sy'n digwydd mewn rhai mannau. Mae gennym y sefyllfa ar Afon Gwy gyda ffosffad oherwydd ffermydd dofednod a'r sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro oherwydd y ffermydd llaeth a hoffwn i waith ganolbwyntio ar y ddwy ardal hynny. Os byddwch yn datrys y problemau yn y ddwy ardal hynny, mae'r ffigurau ar gyfer Cymru'n gwella'n ddramatig, ac mae'r ffigurau ar gyfer ansawdd dŵr hefyd yn gwella'n ddramatig. Byddwn hefyd yn dweud, mae'n ddigon hawdd dweud eich bod yn canolbwyntio ar y ffermydd mwy a'r busnesau mwy, ond nid y ffermydd mwy a'r busnesau mwy sy'n achosi'r problemau bob amser. Mae'r achosion a welais yn y llysoedd yn ddiweddar yn fusnesau cymharol fach. Dydw i ddim yn meddwl y gallwch ganolbwyntio ar y ffermydd mawr neu fel arall nid eir i'r afael â ffynhonnell sylweddol o lygredd.

Meddai **ZH**, dydw i ddim yn meddwl ein bod wedi dweud ein bod yn canolbwyntio ar y ffermydd mwy.

Dywedodd **CH** fod LP wedi crybwyll hynny, holodd a ddylem ganolbwyntio ar y busnesau mwy i wella'r ymgysylltu presennol â Cyswllt Ffermio. Mae angen i chi hefyd ganolbwyntio ar ffermydd llai nad ydynt yn ymgysylltu.

Dywedodd **RV** fod angen i ni ganolbwyntio ar bob fferm yn yr ardaloedd a nodwn. Gallwn ddefnyddio'r dadansoddiad y mae LP wedi dangos i ni ar gyfer olrhain ein cynnydd o ran cynyddu ymgysylltiad mewn meysydd â blaenoriaeth. Os nad yw'r data'n pennu'r ffermydd hynny nad ydynt yn ymgysylltu neu'r ffermydd llai, yna mae angen i ni ddod o hyd i ffordd newydd o edrych ar hyn fel y gallwn ystyried yr holl fusnesau yn y meysydd â blaenoriaeth.

Dywedodd **CH** ei bod yn bwysig sicrhau bod pob fferm yn yr ardaloedd hynny'n cael eu nodi ac yr eir i'r afael ag unrhyw broblemau yno waeth beth fo'u maint.

Meddai **RV**, gallaf sicrhau pawb mai dyna yw ein bwriad. Mae fferm fawr mewn dalgylch mawr yn cael effaith fawr ond gall fferm fechan mewn dalgylch bach gael effaith fawr hefyd.

Gofynnodd **DM**, a oes unrhyw fygythiad i'r cyllid ar gyfer Cyswllt Ffermio oherwydd y toriad mewn cyllid i Lywodraeth Cymru y flwyddyn nesaf? Ac a fydd hynny'n arwain at dorri'r cyllid ar gyfer y rhaglen hon?

Meddai **LP**, nid oes unrhyw fygythiad i gyllid y rhaglen bresennol hyd at fis Awst 2022. Darparwyd gwerth 1.875m o gyllid ychwanegol gan y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori, a all gefnogi 1250 o achosion o gyngor. Y neges yw fod y Gwasanaeth Cynghori ar gael ac yn cael ei hariannu. Mae 15-18 mis ar ôl o'r cyfnod dyrannu gan fod angen caniatáu amser ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad. Os ydym am hyrwyddo'r negeseuon hyn, gorau po gyntaf y byddwn yn penderfynu beth yw'r dalgylchoedd fel y gallwn ddechrau cynllunio yn y Flwyddyn Newydd.

Meddai **MW**, gallaf gael trafodaethau gyda RJ ynghylch pa ddalgylchoedd â blaenoriaeth yr ydym am eu pennu wrth symud ymlaen.

Meddai **FM**, yn aml mae gan y ffermydd mwy y seilwaith i ddelio'n iawn ag allyriadau amaethyddol er mae'n amlwg fod y darlun yn un cymysg.

***PG 07 Rhagfyr: Nodi dalgylchoedd â blaenoriaeth ac argymhellion â blaenoriaeth ar gyfer yr ardaloedd hynny cyn cyfarfod mis Ionawr (CNC).***

Meddai **ZH**, mae angen i ni wybod pwy rydym yn ei dargedu a beth yw'r negeseuon. Mae angen inni gael rhaglen gref, ond yr oeddwn yn hoffi gweld y data hwnnw oherwydd ein bod am annog mwy o bobl i gymryd rhan. Gwyddom fod pobl yn gwrando ar y negeseuon pan fyddant yn ymgysylltu.

Meddai **RLD**, mae 3 pheth yr hoffai NFU Cymru eu gweld yn symud ymlaen o ran y rhaglen gyda Cyswllt Ffermio. Mae angen atgyfnerthu'r negeseuon sy'n cael eu hanfon at y bobl sydd wedi'u targedu o fewn yr ardaloedd presennol. Rydym yn gwbl gefnogol o'r dull sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd, ond hoffem weld dalgylchoedd newydd yn cael eu nodi a fyddai'n elwa ar hyn, ochr yn ochr â chodi ymwybyddiaeth gyffredinol ar draws y diwydiant cyfan. Gallwch gael dalgylchoedd da gyda rhywfaint o arfer gwael yn y dalgylchoedd hynny. Yn ystod y flwyddyn nesaf mae angen i gamau fod ar waith cyn gynted â phosibl. Roeddwn hefyd am i RV roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ffosffad yn Afon Gwy yn dilyn y sylwadau a wnaed gan CH.

Meddai **RV**, mae'r gwaith yn parhau, roeddem wedi ystyried lansiad yr wythnos hon, ond mae hynny wedi'i ohirio oherwydd ein bod wedi penderfynu edrych ar holl afonydd yr ACA yng Nghymru. Nid ydym wedi siarad â'r awdurdodau cynllunio lleol eto, oherwydd y goblygiadau a allai fod ynghlwm wrth yr hyn yr ydym yn mynd i'w ddweud. Mae trafodaethau eisoes wedi'u cynnal â Phowys, ac â Sir Fynwy rwy'n credu, ond nid yw trafodaethau wedi'u cynnal â rhai o'r awdurdodau eraill. Mae'r ymgysylltu hwnnw'n digwydd ar hyn o bryd, ac unwaith y bydd hynny wedi digwydd, byddwn yn gallu rhyddhau'r adroddiad hwnnw. Efallai na fydd yr adroddiad yn cael ei ryddhau tan y Flwyddyn Newydd.

Meddai **RLD**, rwy'n deall na allwch yn fwy na thebyg drafod union fanylion yr adroddiad gan nad yw wedi'i gyhoeddi eto ac na allwch nodi a yw'r problemau yn Afon Gwy yn gysylltiedig â dofednod ai peidio, fel y gellir ei adlewyrchu'n gywir yn y cofnodion.

Meddai **RV**, yr anhawster yw ein bod wedi gorfod edrych ar safonau'r ACA yn hytrach na'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr gan eu bod yn llawer mwy caeth o ran yr ansawdd y mae'n rhaid ei gyflawni. Mae nifer o ddalgylchoedd ACA gan gynnwys Afon Gwy, Brynbuga, Tywi a Teifi. Mae'r safonau'n eithaf caeth ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yr ydym yn ymdrechu i ostwng i'r lefelau hynny. Yn gyffredinol, mae lefelau ffosffad wedi gostwng yng Nghymru, ond nid ar y gyfradd ddisgwyliedig, o ystyried y buddsoddiad gan gwmnïau dŵr. Nid yw rhai o'r targedau sydd wedi'u gosod ac nas cyrhaeddwyd yn y dalgylchoedd ble byddai disgwyl i hyn ddigwydd. Er y bu cynnydd mawr mewn unedau dofednod yn Afon Gwy a bu cynnydd ffosffad yn rhai o'r dalgylchoedd lle mae'r datblygiad wedi digwydd, rydym wedi gweld lefelau o fewn dalgylchoedd eraill nad oes ganddynt yr unedau dofednod. Maent yn sicr wedi arwain at rywfaint o gynnydd mewn ffosffad, ond mae'n fwy tebygol o ddeillio o fwy nag un broblem sy'n gysylltiedig â dofednod.

Diolchodd **RLD**. Byddwn yn edrych arno'n fanwl iawn.

Dywedodd **MW**, pe gallai pawb edrych ar y daenlen ac os oes camau y gallech helpu gyda nhw, cysylltwch â ni. Cysylltaf â KS i weld a oes unrhyw gyllid ar gael ar gyfer Afon Dyfrdwy.

Meddai **ZH**, mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r daenlen ac yn nodi camau gweithredu er mwyn cyflawni cynnydd o ran rhai o'r materion rydym wedi'u nodi.

## Eitem 4: Yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Data am Lygredd Amaethyddol

**ZH** cyn trafod data am lygredd amaethyddol, manteisiodd ZH ar gyfle i groesawu Chris Mills, cynrychiolydd newydd Cyswllt Amgylchedd Cymru i'r grŵp.

Ymddiheurodd **CM** am gyrraedd yn hwyr. Amlinellodd CM ei gefndir o ran swyddi a nododd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r grŵp.

Gwnaeth **MW** rannu ei sgrin er mwyn dangos data a graffiau o'r data diweddaraf ynghylch llygredd amaethyddol hyd at ddiwedd mis Tachwedd. Dyma ddata a gasglwyd ar System Ymateb i Ddigwyddiadau Cymru yn CNC.

Meddai **ZH**, roedd yn dda gweld y graff ar ddigwyddiadau amaethyddol a brofwyd yn gostwng rhwng 2018 a 2020.

Gofynnodd **CM** a oedd problem o ran bod rhai o'r mathau o lygredd fesul sector yn fwy tebygol o gael eu nodi nag eraill ac a oedd hyn yn cael ei ystyried yn broblem.

Meddai **MW**, dim ond yr wybodaeth sydd wedi'i hadrodd i CNC y gallwn ei defnyddio. Gall rhai o'r data gael eu hadrodd gan staff CNC.

Meddai **RV**, bydd gwahaniaethau o ran adrodd gan nad yw digwyddiadau'n cael eu hadrodd ac nid yw llygredd cefndir fel mwyngloddiau metel yn cael ei nodi. Mae CNC hefyd yn defnyddio dulliau eraill i nodi mewnbynnau cefndir eraill hefyd. Mae gwahaniaethau rhwng 'achosion o lygredd' a gofnodwyd a 'llygredd' sy'n digwydd yn yr amgylchedd.

Roedd **CM** yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith bod y data yn adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei adrodd ond nid ydynt o anghenraid yn rhoi'r darlun cyflawn.

Dywedodd **FM** nad oedd yn dda gweld bod nifer yr achosion o lygredd heb ei bennu yn cynyddu.

Dywedodd **BG** fod y gwelliant o ran nifer y digwyddiadau amaethyddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn eithaf sylweddol, lleihad o 35%.

Meddai **RV**, pan fyddwn yn canolbwyntio ein hymdrech ar ddalgylchoedd, ein bod yn edrych ar gyflwr cefndirol y dalgylch fel y gallwn wedyn ymgysylltu a chyfleu'r negeseuon cywir.

Cadarnhaodd **ED** y bydd y data hyn yn cynnwys digwyddiadau y mae staff a swyddogion CNC yn eu canfod wrth ymweld â safleoedd a gwneud gwaith wedi'i dargedu fel bod cofnod.

Gofynnodd **GLD** a oedd patrymau tebyg yn cael eu gweld ledled y DU o'i gymharu â Chymru.

Dywedodd **MW** na wnaed unrhyw gymariaethau â Lloegr na'r Alban. Roedd bwriad i gymharu'r data â data Asiantaeth yr Amgylchedd, SEPA a Gogledd Iwerddon, ond nid yw hyn wedi'i wneud hyd yma.

Dywedodd **SH** ei bod wedi edrych ar gymhariaeth rhwng De-orllewin Lloegr, Canolbarth Lloegr a Cumbria, i adlewyrchu ardaloedd hinsawdd a mathau ffermio Cymru. Y broblem yw nad yw'r data'n cael eu casglu yn yr un modd mwyach yn Lloegr, felly mae'n anodd cymharu. Newidiodd y system adrodd pan gyflwynwyd Rheolau Ffermio ar gyfer Dŵr.

Gofynnodd **MW** a oedd y System Genedlaethol ar gyfer Cofnodi Digwyddiadau (NIRS) yn dal i gael ei defnyddio o fewn Asiantaeth yr Amgylchedd?

Dywedodd **SH** fod y system yn dal i gael ei defnyddio ond mae'r ffordd maen nhw'n casglu data i'w rhoi ynddi wedi newid felly nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu'r hyn oedd yn digwydd, ar lawr gwlad.

Dywedodd **GLD** ei bod yn dda gweld y data'n mynd i'r cyfeiriad cywir, ond bod un digwyddiad yn un yn ormod a dyna beth rydym yn awyddus i'w ddatrys.

Dangosodd **MW** graff wedi'i ddiweddaru o'r adroddiad interim yn dangos canlyniadau 2001. Roedd sawl cydberthynas â'r tywydd wedi dechrau cael eu hystyried yn fras, fodd bynnag, ond nid yw wedi digwydd yn fanwl hyd yma.

Gofynnodd **CM** a oedd y system ar gyfer cofnodi digwyddiadau wedi newid yn ystod y cyfnod hwn?

Dywedodd **MW** mai'r system rhwng 2001 a 2016 oedd system NIRS Asiantaeth yr Amgylchedd, ac o 2016 ymlaen newidiodd i WIRS. Mae'r wybodaeth a'r dulliau o'i nodi yn debyg iawn, ond mae rhai newidiadau wedi'u gwneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gasglu data ychwanegol, megis hunan-adrodd.

Gofynnodd **GLD** pa 'ffynhonnell Amaethyddiaeth arall' y cyfeiriwyd ati.

Cyfaddefodd **ZH** nad yw'r graffiau'n berffaith, ond maent yn rhoi syniad cyffredinol o dueddiadau.

Dywedodd **MW** fod angen cafeatau ar y graffiau i esbonio'r data. Pan fydd swyddog yn dewis 'ffynonellau amaethyddol eraill', mae'n rhaid mewnbynnu rhagor o wybodaeth i WIRS. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y data sy'n cael eu dangos yn y graffiau. Mae 'ffynhonnell anhysbys' yn debygol o olygu llygredd ar dir amaethyddol ond ni nodwyd y ffynhonnell.

Gofynnodd **GLD** a allai drafod hyn ymhellach gyda MW i ddeall y data.

Dangosodd **MW** ddata chwarterol o ddigwyddiadau llygredd i nodi tueddiadau o ran pryd y mae digwyddiadau'n digwydd. Gwelwyd cynnydd sylweddol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Mae'r data'n cynnwys digwyddiadau 'uchel' ac 'isel'. Roedd MW yn disgwyl bod llai o ddigwyddiadau eleni oherwydd COVID ac anallu swyddogion a phobl i roi gwybod am ddigwyddiadau. Dangosodd MW ddata ar achosion sylfaenol digwyddiadau, gyda'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau'n cael eu priodoli i 'ddamweiniol', 'methiant rheoli' neu 'achos llwybr heb ei nodi'. Esboniodd MW nad yw'n bosibl nodi'r achos weithiau, ond mae hyfforddiant yn mynd rhagddo i sicrhau bod staff yn gallu gwneud hyn yn gywir.

Dywedodd **ZH** fod hyn yn dangos pwysigrwydd cyfathrebu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth.

Gofynnodd **CM** beth oedd y diffiniad o 'fethiant rheoli'.

Dywedodd **MW** nad oedd yn gwybod. Byddai'n dod o hyd i ddiffiniadau ac yn dosbarthu'r wybodaeth hon.

Dywedodd **CM** fod 'methiant rheoli' yn debygol o dorri ar draws nifer o'r categorïau eraill.

***PG 08 Rhagfyr: Caffael diffiniadau ar gyfer categorïau WIRS a'u dosbarthu (MW).***

Dangosodd **MW** graff o ddigwyddiadau lle roedd rheswm wedi'i bennu a digwyddiadau lle nad oedd rheswm wedi'i bennu, sy'n amlygu effaith cyfyngiadau symud COVID ar gynyddu nifer y digwyddiadau lle nad oedd rheswm wedi'i bennu. Anogwyd y bobl a oedd yn adrodd ar achosion i anfon lluniau gydag adroddiadau i roi gwell gwybodaeth i swyddogion fel y gallant weithredu a chysylltu â ffermwyr.

Gofynnodd **FM** a oedd y cynnydd a welwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth o ganlyniad i gadw gormod o stoc dan do yn ystod y gaeaf neu o ganlyniad i well ymwybyddiaeth o gamau gorfodi.

Dywedodd **MW** fod angen archwilio'r data mewn rhagor o fanylder cyn gallu pennu rhesymau dros y cynnydd. Gallaf gynnwys rhai cafeatau mewn perthynas â'r graffiau a'u hanfon at aelodau'r grŵp.

***PG 09 Rhagfyr: MW i ddosbarthu Data Llygredd Amaethyddol wedi'u diweddaru i'r grŵp.***

Roedd **ZH** o'r farn fod 'effaith COVID' yn amlwg.

Dywedodd **MW** fod 'effaith COVID' yn bosibl, ac yn enwedig ar ddechrau'r cyfyngiadau symud ym mis Mawrth. Roedd llawer o ddigwyddiadau heb reswm wedi'i bennu gan nad oedd swyddogion yn gallu bod yn bresennol. Unwaith y cymeradwywyd canllawiau ac unwaith y gwnaeth swyddogion ailddechrau mynychu digwyddiadau lefel uchel a rhai digwyddiadau lefel isel gydag asesiadau risg priodol, mae'n ymddangos bod y niferoedd hyn wedi gostwng. Nid oes angen i swyddog fod yn bresennol bob amser os oes ffotograffau'n cael eu cynnwys gydag adroddiadau ac os oes cyswllt â thirfeddianwyr.

Gofynnodd **CM** a oes unrhyw dystiolaeth o fonitro llygredd amaethyddol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Dywedodd **MW** fod data o waith monitro o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ond nid yw'r data hyn wedi'u cymharu â'r data am ddigwyddiadau hyd yma. Gellid cymharu mapiau o nifer uchel o ddigwyddiadau ag ardaloedd o fethiannau o ran y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Dywedodd CM fod y data'n ddefnyddiol ond mae cyfyngiadau clir ynghlwm wrthynt gan nad yw'r hyn a adroddir o anghenraid yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd. Byddai tystiolaeth arall nad yw'n dibynnu ar adrodd fel y rhaglen fonitro ac arolygiadau yn ategiad defnyddiol i ddata'r digwyddiad.

Cytunodd **MW** a dywedodd y gellid edrych ar hyn.

Dywedodd **RV** ei bod yn dystiolaeth ddefnyddiol i helpu i neilltuo adnoddau, er bod cyfyngiadau ynghlwm wrthynt.

## Eitem 5: Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Llaeth

Dangosodd **MW** fapiau a data a ddarparwyd gan ML, arweinydd tîm y Prosiect Llaeth yn CNC. Gellir rhoi’r wybodaeth i aelodau'r grŵp. Mae'r wybodaeth yn gyfredol hyd at ddiwedd mis Hydref 2020. Mae Swyddogion Llaeth yn mynychu ffermydd ac yn llunio adroddiadau, sydd wedyn yn cael eu hadolygu gan uwch swyddogion cyn iddynt gael eu hanfon at y ffermwyr o fewn mis. Mae holl swyddi'r swyddogion llaeth wedi'u llenwi, gan gynnwys 3 swydd uwch, 1 yng Ngogledd Cymru, 1 yng Nghanolbarth Cymru, ac 1 yn Ne Cymru. Ar hyn o bryd mae 9 swyddog llaeth a 3 uwch swyddog. Mae trosiant staff a'r cyfnodau cloi wedi amharu ar y gallu i roi’r rhaglen ar waith. Mae pob swydd yn benodiadau am gyfnod penodol a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021. Gallai arwain at ragor o drosiant o ran staff. Mae cais am bwysau heb ei ariannu wedi'i gyflwyno i sicrhau cyllid ar gyfer y dyfodol.

Gofynnodd **CH** a oes cynigion i wneud unrhyw un o'r staff yn barhaol i wella profiad a hyder staff fel y gallant ofyn y cwestiynau cywir.

Dywedodd **MW** ei bod yn bwysig cadw staff, yn enwedig y rhai sydd wedi ennill y profiad a'r wybodaeth, ond yn anffodus nid yw'n bosibl gwarantu hyn oherwydd natur y cyllid.

Dywedodd **ZH** fod hyn wedi'i godi ar lefel bwrdd gan fod y rolau hyn yn bwysig o ystyried y newidiadau sy'n dod.

Dywedodd **RV** fod y cais wedi'i gyflwyno a bod trafodaethau wedi’u cynnal â Llywodraeth Cymru i geisio sicrhau bod y swyddi’n rhai mwy sefydlog. Mae cynnydd yn cael ei gyflawni o ran y prosiect ac mae'r staff sy'n ymuno â'r prosiect yn aml yn dod o hyd i swyddi mewn adrannau eraill o fewn CNC lle gellir cadw a defnyddio eu gwybodaeth o hyd.

Cyfeiriodd **CH** at achos yn y llys yr wythnos ddiwethaf lle dywedodd yr amddiffyniad y bu arolygiad yn 2018 a bod llygredd wedi’i nodi yn 2019. Roedd y llygredd yn bresennol yn 2018 ond nid oedd unrhyw un wedi sylwi ar hyn. Mae'n bosibl y gellid bod wedi osgoi'r llygredd mwy sylweddol a ddeilliodd o hynny. 2018 oedd dechrau'r prosiect llaeth pan allai'r cynghorwyr fod wedi bod yn ddibrofiad. Roedd angen staff profiadol.

Dywedodd **RV** fod CNC yn ceisio gwella cymhwysedd staff a'u hyfforddi fel eu bod yn fwy profiadol a gwybodus.

Gofynnodd **CH** am gyfarfod y tu allan i'r grŵp gydag RV i drafod yr achos penodol.

Soniodd **RLD** am yr ymweliadau llaeth. Gweledigaeth wreiddiol NFU Cymru o'r prosiect oedd y byddent yn sefydlu tîm dibynadwy fel y gwnaeth Llywodraeth Cymru gyda'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm. Y nod oedd meithrin cysylltiadau dros amser gyda ffermwyr a chreu sefyllfa lle gall ffermwyr droi at staff am gymorth a chyngor. Mae NFU Cymru yn credu nad yw hyn wedi digwydd am sawl rheswm a bod cyfle wedi’i golli.

Gofynnodd **RV** a allem siarad y tu allan i'r grŵp i weld sut i wella'r gwasanaeth.

Croesawodd **RLD** y cyfle.

Dywedodd **ZH** fod cyfle da i fwrw ymlaen â hyn.

Dangosodd **MW** graffiau o gapasiti storio slyri a llwytho maetholion da byw ffermydd yr ymwelwyd â nhw. Dangosodd graff o niferoedd da byw ar ffermydd mai'r cyfartaledd moddol yw ffermydd â 100-120 o Unedau Da Byw.

Gofynnodd **RLD** a ellid gwahaniaethu rhwng ffermydd tenant a ffermydd sy'n eiddo i ffermwyr a ffermydd sydd ag achosion o TB a'r rhai heb achosion o TB fod y materion hyn yn effeithio'n ddifrifol ar allu busnes fferm i ymateb.

Cytunodd **MW** i fynd â'r pwynt hwn, gan adrodd yn ôl wrth ML.

Dywedodd **GLD** y dylai'r graff ar gyfer da byw gael ei wneud yn gliriach i'w ddarllen gan nad yw nifer yr Unedau Da Byw yn cyfateb yn uniongyrchol i niferoedd da byw.

## Eitem 6: Y Safon Dŵr

Dywedodd **RV** fod nifer o'r grwpiau a oedd yn bresennol wedi gweithio ar y Safon Dŵr. Roedd angen ystyried yn awr sut y gallwn symud ymlaen gyda'r ddogfen hon i ddatblygu'r Safon Dŵr. Rydym yn awyddus i weld y Safon yn cael ei datblygu a mater i aelodau'r grŵp heddiw yw ymrwymo iddi a/neu gael y budd gorau o'r ddogfen.

Dywedodd **MW** yr hoffai goladu unrhyw sylwadau pellach am y Safon Dŵr fel y gallwn ddod ag ef yn ôl i'r grŵp a chael trafodaeth yn ddiweddarach. A oes unrhyw un ar yr alwad sydd ag unrhyw farn ar sut i ddatblygu'r safon yn awr?

Dywedodd **RLD** fod NFU Cymru wedi arwain ar y prosiect a'r ac ar ddatblygu'r Safon Dŵr ac maent yn awyddus i beidio â cholli'r cynnydd a gyflawnwyd ond yn derbyn nad yw'r hyn sydd gennym yn fersiwn orffenedig ac efallai y bydd mwy o gyfleoedd fel creu gwefan. Gallai datblygu offeryn sy'n addas ei ddefnyddio gan ffermwyr fod yn ffordd ymlaen. Mae NFU Cymru yn mynd i'w chael hi'n anodd ymrwymo llawer o amser ac adnoddau iddo ar hyn o bryd. Mae sefydliadau eraill fel Gelli Aur a allai helpu i symud y gwaith ymlaen. Y broblem fawr yw os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis bwrw ymlaen â gweithredu rheoliadau PPN newydd y mae NFU Cymru yn parhau i'w gwrthod. Os bydd hynny'n digwydd ni fydd yn hawdd datblygu'r agenda hon.

Cytunodd **RV** â sylwadau Rachel ond holodd a allem barhau â dull cyffyrddiad ysgafn a siarad ag aelodau eraill o'r grŵp i barhau i ddatblygu'r prosiect. Nid ydym yn gwybod o hyd at beth y bydd y rheoliadau dŵr yn arwain ac nid oes gennym unrhyw syniad o ran a yw'r Gweinidog yn bwriadu eu cyflwyno. Rydym yn gweithio ar y sail nad yw'r rheoliadau arfaethedig yn cwmpasu popeth yr ydym am iddynt ei wneud ac felly rwy'n barod i geisio dod â phawb at ei gilydd i barhau i weithio ar y Safon Dŵr. Byddwn yn croesawu cyfraniad parhaus NFU Cymru, a'r aelodau eraill sy'n bresennol ac yn absennol.

Gofynnodd **MW** a ddylem sefydlu grŵp ar wahân i ddatblygu'r prosiect penodol hwn.

Dywedodd **RV** yr hoffai iddo adrodd wrth y grŵp hwn ond awgrymodd y dylai grŵp gorchwyl a gorffen bach gael ei sefydlu.

***PG 10 Rhagfyr: Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu Safon Dŵr (ED). Gwirfoddolwyr: CNC, RLD, FM, GLD, CM, DM, SJ.***

Cododd **DM** bwynt – mae tail solet a lledaeniad treuliad anaerobig i'n tir wedi'i ymgorffori o fewn 24 awr fan bellaf. Roedd hi'n ofynnol cael storfa briodol ar gyfer slyri. Dylid sicrhau nad yw tail yn cael ei daenu ar adegau amhriodol. Dylid sefydlu grŵp llygredd amaethyddol o fewn Llywodraeth Cymru. Roedd angen lleihau allyriadau a drosglwyddir drwy'r aer ar gyfer gwrtaith sy'n seiliedig ar wrea. Dylid cynllunio cymorth ar gyfer ffermydd yn y dyfodol ar sail cynaliadwyedd, gwobrwyo ffermwyr am y camau a gymerwyd a sicrhau gwelliant mewn ansawdd aer. Rwyf wedi darllen hynny'n uniongyrchol o dudalen 91 Cynllun Aer Glân Cymru, Rhagfyr 2019. Ymatebodd TFA i'r ymgynghoriad gan fynegi pryderon. Mae gwrthdaro rhwng y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â Rheoliadau Dŵr newydd yn seiliedig ar y Cynllun Aer Glân tra bo'r grŵp hwn yn parhau i geisio sefydlu cynllun gwirfoddol.

Cytunodd **RV**. Byddwn yn codi hyn gyda Llywodraeth Cymru.

Dywedodd **DM** y byddai hynny'n rhy hwyr. Mae gormod o weithio mewn seilos.

Dywedodd **RV** y gallwn ofyn i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fynychu cyfarfod o'r is-grŵp i fynd i'r afael â'r mater hwn.

***PG 11 Rhagfyr: Gwahodd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru i'r is-grŵp i drafod y Cynllun Aer Glân a'r Rheoliadau Dŵr posibl (RV).***

Cytunai **RLD** â DM ei bod yn ymddangos bod gweithio mewn seilo yn digwydd o fewn Llywodraeth Cymru a CNC. Mae arnom angen dull cydgysylltiedig o ddatblygu mentrau.

Cytunodd **RV**. Mae CNC yn ceisio cymryd ymagwedd gydgysylltiedig a dod â chydweithwyr o fewn LlC at ei gilydd.

## Eitem 7: Cyfathrebu

Rhannodd **KS** y cynllun cyfathrebu ar y sgrin gyda'r grŵp i gytuno ar negeseuon allweddol a chamau gweithredu y dylid eu blaenoriaethu. Neges newydd wedi'i chynnwys yn y cynllun yn amlygu'r gwaith da y mae llawer o ffermwyr eisoes yn ei wneud. Mae problem o hyd o ran nad yw llawer o ffermwyr efallai'n gwybod sut i roi gwybod am ddigwyddiad a phwysigrwydd gwneud hynny'n gyflym.

Gofynnodd **RV** a yw'n broblem sylfaenol ac nad yw pobl yn llwyr ddeall beth yn union yw 'llygredd'?

Gofynnodd **CH** am ddiwygiad i'r ddogfen fel bod tudalen 9 yn nodi 'rheoleiddio' yn hytrach na 'rheoliadau' gan fod hyn yn dangos y broses gyfan a'r opsiynau sydd ar gael o ran gorfodi.

Gofynnodd **CM** pam y mae'r gair 'lleihau' yn cael ei ddefnyddio o ran llygredd ac nid 'osgoi' llygredd.

Dywedodd **CH**, pan ddrafftiwyd yr adroddiad interim, ein bod wedi cytuno ar y geiriad 'dileu llygredd amaethyddol' er mwyn sicrhau bod y nodau yn gwbl glir.

Cytunodd **RV**. Mae cylch gorchwyl y grwpiau'n cynnwys y geiriad 'atal pob llygredd amaethyddol'.

Gofynnodd **ZH** a oedd y grŵp yn hapus i ddefnyddio 'osgoi' neu 'atal' yn lle 'lleihau'.

Cytunodd y grŵp i ddefnyddio’r gair 'atal'.

Symudodd **KS** ymlaen i edrych ar y rhestr o gamau gweithredu wedi'u blaenoriaethu. KS i ddwyn ynghyd yr holl negeseuon a chyfathrebu allweddol a hoffai gael cytundeb a chymeradwyaeth gan aelodau'r is-grŵp ac ymrwymiad i ledaenu'r negeseuon hyn.

***PG 12 Rhagfyr: KS i ddosbarthu paragraff yn cynnwys neges sy’n esbonio aelodaeth a rôl is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

Dywedodd **KS** fod pecyn i bartneriaid hefyd yn cael ei ddatblygu, i gynnwys y negeseuon allweddol a'r cynllun cyfathrebu. Gellir ychwanegu dulliau eraill a datganiadau i'r wasg at y pecyn i bartneriaid wrth i’r gwaith symud ymlaen. Y bwriad yw defnyddio'r Arolwg Mewnwelediadau Cynulleidfa i nodi sut mae ffermwyr yn dymuno derbyn negeseuon. Mae angen gweld a oes newid wedi digwydd yn sgil y cyfyngiadau symud sy’n golygu bod pobl yn ffafrio dulliau digidol ac mae angen sicrhau bod ymdrechion yn cael eu cyfeirio'n briodol.

Gofynnodd **ZH a** yw KS wedi siarad ag AHDB a allai fod wedi gwneud gwaith yn y maes hwn.

***PG 13 Rhagfyr: KS i siarad ag AHDB i weld pa waith sydd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn.***

Dywedodd **KS** y byddai CNC yn cynnal adolygiad o ddogfennau cyfathrebu. Yn y dyfodol, gall aelodau'r grŵp rannu'r dulliau cyfathrebu sydd eisoes wedi'u sefydlu i wneud y defnydd gorau ohonynt. Cynlluniau i ddatblygu calendr cyfathrebu gyda negeseuon tymhorol. Byddent yn croesawu cyfraniadau, cylchlythyrau, podlediadau a manylion am ddigwyddiadau gan aelodau'r grŵp. Gofynnwyd i'r grŵp a oedd awydd i ailgychwyn cylchlythyr Fforwm Rheoli Tir Cymru a sicrhau’r defnydd gorau posibl o'r golofn reolaidd yng nghylchlythyr yr NFU. Awgrymwyd y gallem ddefnyddio'r golofn nesaf i esbonio diben is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Dywedodd **ZH** y byddai’n hapus i roi rhywbeth at ei gilydd ar gyfer y golofn yn y cylchlythyr.

***PG 14 Rhagfyr: ZH i baratoi darn ar gyfer colofn yr NFU yn esbonio cynlluniau'r is-grŵp ar gyfer y flwyddyn.***

Gofynnodd **RV** a oedd grwpiau eraill yn barod i dderbyn erthyglau gan yr is-grŵp fel rhan o'u cyfathrebu rheolaidd ag aelodau.

Dywedodd **FM** fod cylchgrawn gan CLA sy'n mynd at bob aelod ac a fyddai'n cysylltu ynghylch cynnwys posibl.

Dywedodd **DM** nad oes unrhyw gyfeiriadau at landlordiaid, eu tenantiaid ac asiantau tir o fewn y Cynllun Cyfathrebu. A allwn gynnwys pwynt i wella cyfathrebu rhwng asiantau landlordiaid a thenantiaid gan fod hyn yn effeithio'n sylweddol ar lygredd amaethyddol a chydymffurfiaeth.

Cytunodd **KS** a dywedodd y byddai'n cynnwys rhywbeth o fewn y cynllun.

Dywedodd **RV** y byddai'n dda paratoi a chytuno ar erthyglau ar gyfer cylchlythyr a'u dosbarthu i ystod ehangach o ffynonellau. Bydd negeseuon ailadroddus o wahanol feysydd yn cynyddu'r effaith.

Dywedodd **BG** fod gwybodaeth yn cael ei rhannu drwy fewnrwyd FUW a'i rhannu mewn cyfarfodydd pwyllgor.

Dywedodd **RLD** fod NFU Cymru wedi cyflwyno erthygl ar Faterion Ansawdd Dŵr yng nghylchgrawn Ffermio Cymru.

Awgrymodd **KS** y dylid cytuno ar bwnc bob mis ac addasu erthyglau ar gyfer pob cylchlythyr. Gellid blaengynllunio 12 erthygl ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Dywedodd **ZH** y byddai'n werth canolbwyntio ar erthyglau ar gyfer y chwarter cyntaf lle mae digwyddiadau llygredd ar eu huchaf.

***PG 15 Rhagfyr: Nodi pynciau ar gyfer y misoedd sydd i ddod a pharatoi erthyglau i'w dosbarthu (PAWB).***

Dywedodd **RLD** fod blaengynllunio yn bwysig er mwyn i erthyglau gael eu cynnwys mewn cylchlythyrau i gwrdd â therfynau amser caeth.

Gofynnodd **MW** a oedd gan unrhyw grwpiau eraill negeseuon y gallent eu cyfrannu hefyd.

Dywedodd **RV** y gellid defnyddio'r negeseuon cyfathrebu hyn i dynnu sylw at faterion megis mudo pysgod a'r gymuned rheoli tir.

Dywedodd **ZH** fod hwn yn gynllun ardderchog ac os yw pawb yn cefnogi, gallwn helpu ffermwyr i ddeall y materion. Gadewch i ni ganolbwyntio ar C1 i ddechrau.

## Eitem 8: Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol

Bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnal drwy Microsoft Teams wrth symud ymlaen:

- Dydd Llun 25 Ionawr 2021
- Dydd Llun 22 Chwefror 2021
- Dydd Llun 22 Mawrth 2021
- Dydd Llun 19 Ebrill 2021
- Dydd Llun 17 Mai 2021

## Eitem 9: Unrhyw Fater arall

Gofynnodd **FM** am yr wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriad CNC ynghylch canllawiau amonia a nitrogen.

Dywedodd **RV** fod yr ymgynghoriad wedi dod i ben ym mis Tachwedd a bod yr wybodaeth a dderbyniwyd yn cael ei hystyried.

***PG 16 Rhagfyr: Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad ar Ganllawiau Sgrinio Amonia yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod yr is-grŵp ym mis Ionawr.***

Gofynnodd **FM** am waith Partneriaeth Afon Hafren a chyfranogiad CNC, a oedd y mater yn berthnasol i'r grŵp hwn?

***PG 17 Rhagfyr: Dosbarthu gwybodaeth am Bartneriaeth Afon Hafren i'r grŵp (RV).***

Siaradodd **ZH** am gynllun buddsoddi mewn rheoli slyri y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio arno i'w weithredu o 2022 ymlaen. Roedd cydnabyddiaeth o fethiant yn y farchnad a diffyg cydymffurfio ar raddfa fawr ar y fferm a pha gamau y mae angen eu rhoi ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r diwydiant. Byddai'n fuddiol gwylio i ba gyfeiriad y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn symud.

Dywedodd **RV** y bydd y cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynnal drwy Microsoft Teams.

## Diwedd y cyfarfod